

Caerdydd **Ddwyieithog**

**Bilingual** Cardiff

# Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog

## 2017 - 2022

Wedi'i pharatoi yn unol â gofynion Safon 145 yr Iaith Gymraeg dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

CARDIFF
CAERDYDD

# Caerdydd Ddwyieithog Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg

Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yw'r strategaeth hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyntaf ar gyfer Cyngor Dinas Caerdydd. Mae'n sefydlu ein blaenoriaethau i hwyluso a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd ar y cyd â'n partneriaid, gan ddechrau ar y daith i fod yn brifddinas gwirioneddol ddwyieithog ar gyfer Cymru.

Mae'r iaith bellach yn rhan cymaint mwy o'n dinas na phan oeddwn i'n tyfu fyny, ac mae hyn yn rhywbeth i'w ddathlu. Er nad wyf yn siaradwr Cymraeg rhugl, rwyf fi, fel llawer o bobl eraill, yn ymfalchïo'n fawr ein bod yn byw mewn dinas cynyddol amrywiol ag iddi ddwy iaith swyddogol – a thros 100 o ieithoedd answyddogol.

Dros y blynyddoedd diweddar, mae naid wedi bod yn niferoedd siaradwyr y Gymraeg yn y ddinas, yn bennaf oherwydd twf addysg cyfrwng Cymraeg, gyda niferoedd cynyddol a pharhaus o blant a phobl ifanc yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae twf addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddinas yn golygu fod mwy o'n plant a'n pobl ifanc yn derbyn cyfle i ddod yn oedolion dwyieithog hyderus. Ond ni ddylid cyfyngu'r cyfle hwn i rai sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn unig; dylai pob plentyn boed nhw'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg adael yr ysgol yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg. Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 y Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn hwyluso twf addysg Gymraeg yn ogystal a chynyddu safonau'r Gymraeg ledled ysgolion y ddinas.

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd dros gyfnod o bum mlynedd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr y Gymraeg erbyn 2050. Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn cyflawni'r weledigaeth hon, ein dyhead yw gweld dyblu nifer siaradwyr Cymraeg y ddinas erbyn 2050. Fel prifddinas Cymru rydym yn dymuno arwain y ffordd wrth greu gwlad gyfoes gwirioneddol ddwyieithog sy'n ymhyfrydu yn ei threftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyfoethog.

Yn ogystal â chynyddu niferoedd y siaradwyr a'r dysgwyr Cymraeg, un o'r prif flaenoriaethau trwy gyfrwng Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yw i ymestyn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau. Rydym yn croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2018 ac Eisteddfod yr Urdd y flwyddyn ddilynol, gan arddangos yr iaith a'r diwylliant Cymraeg ar ei gorau yng nghanol y ddinas. Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddigwyddiad unigryw gan mai dyma fydd y tro cyntaf y bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal heb Faes yn yr ystyr arferol gan ei gwneud yn fwy hygyrch nag erioed i gynulleidfaoedd newydd a chynnig cyfle heb ei ail i'r iaith Gymraeg gyrraedd cymaint yn fwy o bobl.

Mae hon yn strategaeth i'r ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig. Mae'r sefyllfa ariannol bresennol sy'n wynebu pob awdurdod lleol yn golygu y bydd cyflawni canlyniadau'r strategaeth hon yn heriol, ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd mawr a seiliau cadarn i ni greu a meithrin partneriaethau cryfion fydd yn cynorthwyo'r Gymraeg i dyfu a llewyrchu yn ein prifddinas.

Diolch yn fawr

Y Cynghorydd Phil Bale
Arweinydd, Cyngor Dinas Caerdydd

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Caerdydd Ddwyieithog | 2 |
| Proffil Iaith Caerdydd | 3 |
| Cyd-destun Polisi | 5 |
| Gweithio gyda Phartneriaid | 7 |
| Maes Strategol 1: Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc | 8 |
| Maes Strategol 2: Y Gymuned a Seilwaith | 9 |
| Maes Strategol 3: Gwasanaethau Cymraeg a'r Gweithle | 10 |
| Atodiad I: Caerdydd Ddwyieithog: Cynllun Gweithredu Strategaeth 5 Mlynedd | 11 |
| Atodiad II: Partneriaid Arweiniol | 21 |

# Trosolwg

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Mae Safon 145 yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd erbyn 30 Medi 2016 sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y strategaeth hon yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chamau penodol i hwyluso'r defnydd o'r iaith yn unol â Strategaeth y Gymraeg 2012 - 17 a strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (cyhoeddwyd ym mis Awst 2016).

**CYSWLLT**
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â
Caerdydd Ddwyieithog
Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 400 Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

E-bost: caerdydd-ddwyieithog@caerdydd.gov.uk
Ffôn: 02920 872527

**Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan:**

**Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).**






# Caerdydd Ddwyieithog

**Datganiad Cenhadaeth**
Gweithio gyda phartneriaid i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 drwy Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru

**Gweledigaeth**
Ein gweledigaeth yw datblygu Caerdydd gwbl ddwyieithog. Caerdydd lle gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth yn Gymraeg neu Saesneg yn yr un modd. Prifddinas lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth cwbl naturiol, a lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau a'i defnyddio.

Mae Caerdydd yn newid yn gyflym. Mae prifddinas Cymru yn un o'r dinasoedd mawr sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain, ac mae'n tyfu'n gyflymach nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Dros y 25 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu gyda ffigyrau'r Cyfrifiad diwethaf yn dangos bod dros 16 % o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg.

Wrth i'r ddinas dyfu, nod y strategaeth hon yw cynyddu nifer a chanran y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yng Nghaerdydd. I gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth hon, byddai angen i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd gan 15.9 % o 36,735 (Cyfrifiad 2011) i 42,583 (Cyfrifiad 2021).

Mae'r dull gweithredu a nodir yn y ddogfen hon wedi'i strwythuro i adlewyrchu'r meysydd strategol a amlinellir yn strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth hon wedi'i strwythuro o amgylch 3 maes strategol sydd wedi'u nodi gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn nodi ein blaenoriaethau strategol dan bob un o'r meysydd hyn, ac yn nodi'r newid y bydd angen i ni ei wneud i gyflawni ein gweledigaeth o Gaerdydd ddwyieithog.

Mae hon yn strategaeth i'r ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig. Bydd cyflawni'r strategaeth felly yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg ac, yn bwysicach na dim, gyda phobl Caerdydd. Mae'r platfform ar gyfer gwneud hyn yn ei le yn barod. Daeth cynhadledd Caerdydd Ddwyieithog, a drefnwyd gan y Cyngor, â phartneriaid ynghyd o bob rhan o'r ddinas, ac arweiniodd at gyfleuster pwrpasol yn y ddinas a fyddai'n arddangos yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn ogystal â chreu cyfleoedd newydd i bobl gymdeithasu, cyfranogi a mynegi eu hunain mewn awyrgylch dwyieithog. O ganlyniad, agorodd Yr Hen Lyfrgell, Canolfan Gymraeg Caerdydd, ym mis Chwefror 2016 yn adeilad yr Hen Lyfrgell. Bydd y ganolfan hon – a'r bartneriaeth y mae'n ei chynrychioli – yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o hybu'r Gymraeg yn y ddinas a gweithredu blaenoriaethau'r strategaeth hon.

Bydd cefnogi pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau i ddysgu a siarad Cymraeg hefyd wrth wraidd y gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau. Yn ddiweddar mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nhwf addysg Gymraeg yn y ddinas, gyda chynnydd parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael addysg Gymraeg. Bydd y system addysg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau twf yr iaith yn y dyfodol wrth i ni geisio cynyddu nifer y plant – a'r rhieni - sy'n cael y cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg, a chael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i glwydi'r ysgol.

# Prifddinas Ddwyieithog: Proffil Iaith Caerdydd

Caerdydd yw’r ddinas fawr sy’n tyfu gyflymaf ym Mhrydain heblaw Llundain. Rhwng 2002 a 2013 tyfodd poblogaeth y ddinas gan 13 % a disgwylir i’r twf hwn barhau. Rhagwelir twf o 26 % erbyn 2036.

Caerdydd yw awdurdod lleol mwyaf Cymru, a hefyd dyma lle bu’r twf mwyaf yn y boblogaeth dros y 10 mlynedd ddiwethaf, a disgwylir i’r ddinas dyfu’n gyflymach o lawer nag unrhyw ardal yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf.

Mae’r ddinas hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, gyda niferoedd yn dyblu dros yr 20 mlynedd rhwng cyfrifiadau 1991 a 2011. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos bod gan 16.2 % o boblogaeth Caerdydd un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (y gallu i ddarllen, ysgrifennu a/neu ddeall Cymraeg) ac mae 36,735 neu 11.1 % o boblogaeth y sir yn siaradwyr Cymraeg.

**Cymhariaeth yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2011** [1]

| | 1991 | 2001 | 2011 |
|---|---|---|---|
| **Caerdydd** | 18,071 (6.6 %) | 32,504 (11 %) | 36,735 (11.1 %) |


Caerdydd yw'r awdurdod lleol sydd â'r pedwerydd nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg, ac mae wedi gweld cynnydd cyson yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg dros y 25 mlynedd ddiwethaf. Mae’r crynodiad o siaradwyr Cymraeg wedi’i ddosbarthu’n eithaf cyfartal ledled wardiau etholiadol y ddinas.



[1] Cyfrifiad 2011 yw’r data diweddaraf ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas.

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff





Mae twf o'r fath yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn adlewyrchu dwy duedd amlwg. Yn gyntaf, mae'r chwarter canrif diwethaf wedi gweld llawer o siaradwyr Cymraeg yn mewnfudo i Gaerdydd o ardaloedd eraill yng Nghymru. Yn ail, mae'n adlewyrchu arferion a pholisïau ymrwymedig mewn perthynas ag addysg Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd.[2] Ar hyn o bryd mae 3 ysgol uwchradd Gymraeg a 17 o ysgolion cynradd Cymraeg yn y ddinas (mae dwy ohonynt yn ysgolion cynradd dwy ffrwd). Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 4567 o ddisgyblion yn mynychu ar lefel gynradd a 2248 o ddisgyblion 11-16 oed ar lefel uwchradd (Hydref 2016).

I gael rhagor o wybodaeth am broffil yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd ewch i **http://www.mentercaerdydd.org/files/downloads/about/2016/proffil-iaith-caerdydd-2016-cymraeg.pdf**

**Nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru mewn addysg Gymraeg 2004/5 – 2022 (rhagamcan)**




[2] Gweler Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Dinas Caerdydd

# Cyd-Destun Polisi

Er bod y strategaeth 5 mlynedd hon yn ofyniad statudol newydd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, mae'n adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yng Nghaerdydd i fodloni anghenion siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a'n cymunedau. Drwy'r strategaeth hon byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni un o'r saith nod 'lles' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r fframwaith statudol a pholisi y mae'r strategaeth newydd hon yn eistedd y tu mewn iddo:

## Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

O 30 Mawrth 2016, mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gydymffurfio â rheoliadau newydd Safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut y dylai, fel sefydliad, ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull gweithredu mwy cydlynol.

Un o'r saith nod Lles a restrir yn y Ddeddf yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu".

## Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru

**Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017 ****

Dyma strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. I gyflawni hynny, nod y strategaeth yw gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad a defnyddio'r iaith.

***** Ar 1af o Awst 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu strategaeth ddrafft newydd ar gyfer ymgynghoriad, sef 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau y bydd ein strategaeth yn cysylltu â blaenoriaethau a gweithrediadau'r strategaeth hon, a allai olygu y bydd angen adolygiad yn 2017 er mwyn alinio'r strategaeth hon ymhellach gyda'r ddogfen genedlaethol newydd.***






## Llywodraeth Cymru: Mwy na Geiriau

**Y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol**

'Mwy na Geiriau' yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn hollbwysig o ran sicrhau canlyniadau llesiant cadarnhaol ar gyfer unigolion, rhywbeth sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Codau Ymarfer dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn rhan o'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ac y caiff gwasanaethau eu cynnig yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg heb fod angen iddynt wneud cais am hynny yn unol â'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

## Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Caerdydd 2016-18 a Strategaeth Partneriaeth Integredig Beth sy'n Bwysig

The City of Cardiff Council's Corporate Plan sets out what the Mae



Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Caerdydd yn nodi'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud i wireddu ei weledigaeth o fod y brifddinas oriau i fyw ynddi yn Ewrop. Bydd gweithio i gyflawni'r weledigaeth hon hefyd yn cyfrannu at strategaeth partneriaeth integredig Caerdydd – Beth sy'n Bwysig – a'i saith canlyniad y mae partneriaid gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector wedi cytuno arnynt. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei ddiwygio bob blwyddyn a chaiff y Strategaeth Beth sy'n Bwysig ei disodli gan Gynllun Llesiant newydd yn 2017, fel y gorchmynnwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cyngor Dinas Caerdydd: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (2013) yn rhoi gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP). Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo'r Cynllun a gyflwynwyd, cymeradwyo'r Cynllun ag addasiadau neu wrthod y Cynllun a gofyn i'r awdurdod baratoi un arall. Mae'r WESP yn canolbwyntio ar y targedau yn y Strategaeth Addysg Gymraeg a disgwylir i awdurdodau lleol adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad yn erbyn y targedau hyn.

## Cyngor Dinas Caerdydd: Strategaeth 2020

Mae 'Caerdydd 2020' yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed o ran gwella addysg dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod rhaglen uchelgeisiol i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn cael y cyfle i lwyddo. Bwriad y strategaeth yw creu lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn golygu sicrhau bod modd manteisio ar amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol yn Gymraeg a Saesneg.

# Gweithio Gyda Phartneriaid

Fel strategaeth ar gyfer y Ddinas gyfan, mae llwyddiant gweledigaeth Caerdydd Ddwyieithog fel yr amlinellir yn y strategaeth hon yn dibynnu ar gydweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

Rydyn ni wedi gweld llwyddiant a phwysigrwydd cydweithio yn ddiweddar gyda'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i greu Canolfan Gymraeg ('Yr Hen Lyfrgell') a agorodd ym mis Chwefror 2016. Mae'r ganolfan yn hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg fel iaith fyw yn y brifddinas mewn canolfan gyfeillgar a chroesawgar sydd ar agor i holl drigolion Caerdydd ac ymwelwyr. Mae'r Hen Lyfrgell yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau mewn awyrgylch cymdeithasol a chynhwysol lle mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig wrth wraidd popeth. Bydd y ganolfan yn allweddol i ddatblygu a hyrwyddo'r iaith yng Nghaerdydd ac yn hwyluso gweithredoedd penodol a fydd yn datblygu o'r strategaeth hon.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi gweithio'n effeithiol gyda Menter Caerdydd i ddarparu nifer o wasanaethau Cymraeg i blant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau chwarae Cymraeg i blant, gofal gwyliau, cyrsiau hyfforddi a chefnogi gŵyl Tafwyl sydd wedi datblygu'n un o brif ddigwyddiadau Cymraeg Cymru.

Mae Fforwm Iaith Gymraeg hir-sefydlog Caerdydd, a ailenwyd yn Fforwm Caerdydd Ddwyieithog, sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog, wedi cytuno i roi'r strategaeth ar waith a'i monitro ar ran eu sefydliadau tra bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn arwain ar hwyluso'r Strategaeth o safbwynt y Cyngor.

Yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid sefydledig, mae cymunedau chwaraeon a chelfyddydau'r ddinas yn rhanddeiliaid pwysig y byddwn yn ceisio gweithio gyda nhw i ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y ddinas. Gweler atodiad II am y partneriaid arweiniol.






# Maes Strategol 1: Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth:** | Mae teuluoedd, plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd. |
| **Canlyniad:** | Mae teuluoedd, plant a phobl ifanc yn dewis defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac mewn lleoliad cymdeithasol. |
| **Meysydd Blaenoriaeth:** | • Hyrwyddo'r manteision o addysg Gymraeg i holl gymunedau Caerdydd a gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br>• Gwella darpariaeth a safonau mewn ysgolion Cymraeg ac ysgolion Saesneg drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br>• Hyrwyddo'r manteision o drosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu a rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc fod yn oedolion dwyieithog hyderus.<br>• Rhoi cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.<br>• Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol Cymraeg i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiau'r ysgol.<br>• Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau Saesneg ymwneud yn gadarnhaol â'r iaith Gymraeg.<br>• Gwella cyfraddau dilyniant rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16.<br>• Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgìl gwerthfawr mewn hyfforddiant a chyflogaeth. |

# Maes Strategol 2: Cymuned a Seilwaith

| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth:** | Dinas â thirwedd ieithyddol hollol ddwyieithog lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o weithgareddau cymdeithasol a dinesig. |
| **Canlyniad:** | Mae safle ac amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned yn cael ei atgyfnerthu a'i gefnogi. |
| **Meysydd Blaenoriaeth:** | • Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw i Gaerdydd fel prifddinas a dinas graidd, a hyrwyddo'r brand 'Caerdydd Ddwyieithog'.<br>• Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob digwyddiad mawr, proffil uchel a gynhelir yng Nghaerdydd, cefnogi digwyddiadau cymunedol Cymraeg sydd eisoes yn bodoli a rhannu arfer da.<br>• Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy gweladwy yn y ddinas i adlewyrchu 'Caerdydd Ddwyieithog' trwy fecanweithiau cynllunio sydd eisoes yn bodoli.<br>• Cyflwyno'r Gymraeg i gymunedau newydd a chymunedau sy'n dod i'r amlwg fel ffordd o gyfleu diwylliant Cymreig, a hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg.<br>• Cefnogi'r Hen Lyfrgell, Canolfan Gymraeg Caerdydd, i gynyddu gweithgareddau sy'n estyn allan a datblygu cyfleoedd i arddangos hanes a threftadaeth Gymraeg helaeth Caerdydd. |






## Maes Strategol 3: Gwasanaethau Cymraeg a'r Gweithle

| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth:** | Mae gwasanaethau o ansawdd ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn yr un modd. |
| **Canlyniadau:** | Cynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg. |
| **Meysydd Blaenoriaeth:** | • Cynyddu nifer/canran y siaradwyr Cymraeg o fewn sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog a galluogi a chefnogi staff rhugl, yn ogystal â staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac annog sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i ddefnyddio'r un dull.<br>• Annog sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i ddarparu hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl Uwch Reolwyr a staff.<br>• Gweithrediad y safonau iaith gan sefydliadau Caerdydd Ddwyieithog perthnasol yn arwain at gynyddu argaeledd a'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg<br>• Dangos ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg mewn trefniadau cydweithredu a dogfennau comisiynu a chontractau 3ydd parti a sicrhau bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn cael eu cynnwys o'r cychwyn.<br>• Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Gymraeg.<br>• Archwilio'r ffordd y mae ein gwasanaethau'n cael eu cynnig i'r cyhoedd a gweithio gydag arbenigwyr mewn pensaernïaeth dewis iaith i sicrhau dewis iaith teg. |

# Atodiad I: Caerdydd Ddwyieithog:
## Cynllun Gweithredu Strategaeth 5 Mlynedd

### Teulu, Plant a Phobl Ifanc

| BLAENORIAETHAU | CAM GWEITHREDU | TARGED / AMSERLEN | PARTNERIAID ARWEINIOL |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo'r manteision o addysg Gymraeg i holl gymunedau Caerdydd a gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | Gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 | Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n mynychu ysgolion Cymraeg gan 12.3 % erbyn 2022. | Cyngor Dinas Caerdydd – Addysg a Dysgu Gydol Oes. |
| | Hyrwyddo manteision addysg Gymraeg drwy roi gwybodaeth i bob teulu yng Nghaerdydd ar wefan y Cyngor, yn y llyfryn derbyn i ysgolion ac mewn cylchlythyron perthnasol (e.e. Primary Times, Ein Caerdydd ac ati) | Adran benodol i'w chynnwys yn Llawlyfr Derbyn i Ysgolion 2018/19 ac ar wefan y Cyngor erbyn mis Hydref 2018 a bob blwyddyn wedi hynny. | Cyngor Dinas Caerdydd – Addysg a Dysgu Gydol Oes. |
| | Sefydliadau Caerdydd Ddwyieithog i hyrwyddo a chefnogi Mudiad Meithrin i gyflwyno rhaglen 'Cymraeg i Blant' Llywodraeth Cymru ledled Caerdydd. | Dechrau Mawrth 2018 | Mudiad Meithrin, Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro |
| Gwella darpariaeth a safonau mewn ysgolion Cymraeg ac ysgolion Saesneg drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | Gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 | Cynyddu canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf i 85 % erbyn 2020. | Cyngor Dinas Caerdydd – Addysg a Dysgu Gydol Oes. |
| | | Cynyddu canran y dysgwyr sy'n astudio'r cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith i o leiaf 80 % erbyn 2020. | Cyngor Dinas Caerdydd – Addysg a Dysgu Gydol Oes. |






| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynyddu canran y cohort blwyddyn 11 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg ail iaith i 40 % erbyn 2020. | Cyngor Dinas Caerdydd – Addysg a Dysgu Gydol Oes. |
| Hyrwyddo'r manteision o drosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu a rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc fod yn oedolion dwyieithog hyderus. | Datblygu sesiynau wyneb yn wyneb cynhwysfawr ledled Caerdydd i deuluoedd yn crynhoi manteision dwyieithrwydd yn ogystal â rhoi gwybodaeth ar feithrinfeydd ac ysgolion Cymraeg. | 4 sesiwn y flwyddyn o fis Medi 2018 ymlaen. | Menter Caerdydd, Cyngor Dinas Caerdydd – Addysg a Dysgu Gydol Oes a Caerdydd Ddwyieithog, Dechrau'n Deg, Mudiad Meithrin, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |
| | Asesu'r galw a, lle nodir hynny, roi cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i rieni ddysgu Cymraeg mewn ysgolion Cymraeg a lleoliadau ledled y ddinas. | Asesu'r galw i lywio cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg yn y dyfodol erbyn mis Gorffennaf 2018. | Cyngor Dinas Caerdydd – Addysg a Dysgu Gydol Oes, Ysgol y Gymraeg (Prifysgol Caerdydd), Prifysgol Caerdydd, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| | Creu rhwydwaith cefnogaeth i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg | O fis Medi 2018. | Cyngor Dinas Caerdydd, Ysgolion Cyfrwng Cymraeg |
| Rhoi cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. | Datblygu a hyrwyddo calendr o ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg ar gyfer teuluoedd er mwyn i blant a rhieni allu dysgu Cymraeg gyda'i gilydd. | O fis Medi 2017 a bob blwyddyn wedi hynny. | Menter Caerdydd, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, Ysgol y Gymraeg (Cymraeg i Oedolion), Prifysgol Caerdydd. |
| | Cynyddu nifer y sesiynau darllen yn uchel neu weithgareddau Cymraeg eraill i rieni a phlant ym mhob un o hybiau a llyfrgelloedd Caerdydd. | O fis Medi 2018 a bob blwyddyn wedi hynny.<br><br>Cynnydd o 25 % erbyn 2022. | Cyngor Dinas Caerdydd, Menter Caerdydd, Mudiad Meithrin |
| | Cynnig cyfleoedd am weithgareddau teuluol anffurfiol am ddim ar gyfer dysgu Cymraeg. | O fis Medi 2018 a bob blwyddyn wedi hynny. | Ysgol y Gymraeg (Cymraeg i Oedolion), Prifysgol Caerdydd, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cyngor Dinas Caerdydd, Menter Caerdydd, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynyddu nifer y digwyddiadau Cymraeg yng Ngŵyl Llên Plant Caerdydd gan 30 %. | O fis Mawrth 2018 | Llenyddiaeth Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd |
| Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol Cymraeg i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiau'r ysgol. | Cynllunio, cyd-drefnu a hysbysebu calendr cydlynol o weithgareddau Gofal, Chwarae a Hamdden i blant rhwng 4 a 11 oed a rhwng 11 a 18 oed. | O fis Medi 2017 a bob blwyddyn wedi hynny. | Menter Caerdydd, Urdd Gobaith Cymru, Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Dinas Caerdydd |
| | Cynllunio a chyd-drefnu gweithgareddau gyda'r Hen Lyfrgell, ysgolion Cymraeg a rhanddeiliaid i gefnogi a hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd 2018. | O fis Medi 2017 i fis Awst 2018. | Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Yr Hen Lyfrgell, Menter Caerdydd, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin |
| | Defnyddio'r Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg fel ffordd o ddenu pobl ifanc i gymryd rhan yn gymdeithasol ac fel artistiaid yn y Sîn Gerddoriaeth Gymraeg | Chwefror 2018 | Llywodraeth Cymru |
| Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau Saesneg ymwneud yn gadarnhaol â'r iaith Gymraeg. | Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cyfleoedd gefeillio rhwng ysgolion Cymraeg a Saesneg i weithio ynghyd ar brojectau penodol | Ionawr 2018 | Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De, Ysgolion Cymraeg, Ysgolion Saesneg. |
| | Cynnal astudiaeth ymarferoldeb i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu clybiau ar ôl ysgol dwyieithog a gofal plant dwyieithog yn ystod y gwyliau i blant sy'n mynychu ysgolion Saesneg, ac ymateb i'r galw. | Cwblhau'r astudiaeth ymarfer-oldeb erbyn mis Rhagfyr 2017. | Pob ysgol Saesneg, Menter Caerdydd, Urdd Gobaith Cymru. |
| | Asesu'r posibilrwydd o gynnal Eisteddfod Ddwyieithog Caerdydd i ysgolion Cymraeg a Saesneg Caerdydd cyn Eisteddfod Genedlaethol 2018. | Cwblhau'r astudiaeth ymarferoldeb erbyn Medi 2017. | Cyngor Dinas Caerdydd, Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De, Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru. |




| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwella cyfraddau dilyniant rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16. | Gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 | Cynyddu nifer y plant saith oed a addysgir trwy'r Gymraeg gan 1.2 %, o 15.2 % yn Ionawr 2016 i 16.4 % erbyn 2020. | Cyngor Dinas Caerdydd a'r Fforwm Addysg Gymraeg |
| | | Cynyddu nifer y dysgwyr ym mlwyddyn naw a asesir yn Gymraeg (Iaith Gyntaf) gan 1.5 % i 14.4 % erbyn 2020. | Cyngor Dinas Caerdydd a'r Fforwm Addysg Gymraeg |
| | | Cynyddu canran y dysgwyr 17 oed sy'n astudio 2 neu ragor o bynciau trwy'r Gymraeg gan 4 % i 95 % erbyn 2020. | Cyngor Dinas Caerdydd a'r Fforwm Addysg Gymraeg |
| Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgìl gwerthfawr mewn hyfforddiant a chyflogaeth. | Cynnig gwybodaeth gyfoes a chyson i bobl ifanc am gyfleoedd swyddi a phrentisiaethau sydd angen sgiliau dwyieithog. | Datblygu strategaeth ar y cyd erbyn Ebrill 2018 | Colegau Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, , Cyngor Dinas Caerdydd |
| | Datblygu adnodd i holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog i hysbysebu swyddi Cymraeg hanfodol mewn cyfeirlyfr canolog a hygyrch. | Adnodd ar gael o fis Medi 2018. | Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Colegau Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd, Menter Caerdydd. |
| | Sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i ddatblygu cynlluniau profiad gwaith a phrentisiaethau Cymraeg o fewn eu sefydliadau. | I ddechrau Medi 2018 | Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Colegau Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd |

# Y Gymuned a Seilwaith

| BLAENORIAETHAU | CAM GWEITHREDU | TARGED / AMSERLEN | PARTNERIAID ARWEINIOL |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw i Gaerdydd fel prifddinas a dinas graidd, a hyrwyddo'r brand 'Caerdydd Ddwyieithog'. | Datblygu brand 'cyrchfan Caerdydd' cwbl ddwyieithog i hyrwyddo Caerdydd yng Nghymru ac yn rhyngwladol. | Brand wedi'i ddatblygu erbyn Rhagfyr 2018 ac yna'i dderbyn a'i weithredu'n briodol | Tîm Twristiaeth Cyngor Dinas Caerdydd i gael ei fabwysiadu gan yr holl bartneriaid |
| | Sicrhau bod gwybodaeth farchnata economaidd, busnes a thwristiaeth yn cynnwys cyfeiriad at Gaerdydd fel dinas ddwyieithog. | Rhagfyr 2018 | Timau Caerdydd Ddwyieithog, Twristiaeth, Datblygu Economaidd Cyngor Dinas Caerdydd |
| | Annog busnesau preifat sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg i ddangos neu arddangos y brand Caerdydd Ddwyieithog yn eu siopau neu fusnesau. | Deunyddiau wedi'u cynhyrchu erbyn Ebrill 2017. Ymgyrch codi ymwybyddiaeth o fis Medi 2017. Busnesau a sefydliadau perthnasol i ddefnyddio'r logo Caerdydd Ddwyieithog o fis Ebrill 2018 | Tîm Caerdydd Ddwyieithog Cyngor Dinas Caerdydd, Menter Caerdydd, Yr Hen Lyfrgell |
| Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob digwyddiad mawr, proffil uchel a gynhelir yng Nghaerdydd, cefnogi digwyddiadau cymunedol Cymraeg sydd eisoes yn bodoli a rhannu arfer da. | Sicrhau bod yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg mewn unrhyw ymgyrchoedd a deunyddiau yn ddwyieithog yn cael ei gynnwys mewn unrhyw gontract, tendr, trwydded neu unrhyw gytundeb cyfreithiol arall gyda threfnwyr digwyddiadau a bod yr holl ddigwyddiadau yn ddwyieithog. | I'w gwblhau erbyn Mawrth 2018. Cynhelir archwiliad o ddigwyddiadau rhwng Mawrth 2018 a Mawrth 2019. | Cyngor Dinas Caerdydd - Digwyddiadau, Twristiaeth a Caerdydd Ddwyieithog, Llywodraeth Cymru. |
| | Annog a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid digwyddiadau mawr i arddangos Caerdydd fel dinas ddwyieithog sy'n ffynnu. | O Ebrill 2017 | Cyngor Dinas Caerdydd - Digwyddiadau, Twristiaeth a Caerdydd Ddwyieithog, Llywodraeth Cymru. |
| | Casglu gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau Cymraeg a'r holl bartneriaid i hyrwyddo gwefan 'Gymraeg' Llywodraeth Cymru. | Holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog i roi gwybodaeth am eu digwyddiadau Cymraeg i Lywodraeth Cymru o fis Medi 2017 ymlaen. | Llywodraeth Cymru, holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog |




| | | | |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy gweladwy yn y ddinas i adlewyrchu 'Caerdydd Ddwyieithog' trwy fecanweithiau cynllunio sydd eisoes yn bodoli. | Ymchwilio, a lle y bo'n briodol, nodi dulliau cynllunio i sicrhau bod ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr fel siopau cadwyn, archfarchnadoedd a manwerthwyr yn ystyried yr angen i godi arwyddion a hysbysiadau dwyieithog. | Canllaw Blaen Siop ac Arwyd-dion a Chanllaw Cynllunio Atodol i'w cwblhau erbyn Rhag-fyr 2017. Yn weithredol o Ion-awr 2018. | Cyngor Dinas Caerdydd – Cynllunio |
| | Ymchwilio, a lle y bo'n briodol, nodi dulliau cynllunio i sicrhau bod ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai newydd yn ystyried yr angen i ddefnyddio enwau dwyieithog a chodi arwyddion a hysbysiadau dwyieithog. | Canllaw Blaen Siop ac Arwyd-dion a Chanllaw Cynllunio Atodol i'w cwblhau erbyn Rhag-fyr 2017. Yn weithredol o Ion-awr 2018. | Cyngor Dinas Caerdydd – Cynllunio |
| | Cyngor Dinas Caerdydd i fabwysiadu'r egwyddor fod y Gymraeg yn dod gyntaf ar unrhyw ddeunydd y mae'r Cyngor yn ei gynhyrchu. | O fis Medi 2017 | Cyngor Dinas Caerdydd |
| Cyflwyno'r Gymraeg i gymunedau newydd a chymunedau sy'n dod i'r amlwg fel ffordd o gyfleu diwylliant Cymreig, a hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg. | Cydgysylltu â'r trydydd sector i ddatblygu dosbarthiadau Cymraeg ar gyfer cymunedau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys ffoaduriaid ac ymfudwyr, i nodi cyfleoedd pellach i gymunedau newydd yn y ddinas ddysgu Cymraeg | Nifer o ddosbarthiadau blasu Cymraeg ar gael erbyn Ionawr 2018 | Ysgol y Gymraeg (Cymraeg i Oedolion) Prifysgol Caerdydd, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| | Gweithgareddau allgymorth gan ysgolion Cymraeg mewn cymunedau lleol. | O fis Medi 2019 | Ysgolion Cymraeg (wedi'u hwyluso gan Gyngor Dinas Caerdydd – Addysg a Dysgu Gydol Oes), Prifysgol Caerdydd (Cymraeg i Oedolion). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cefnogi'r Hen Lyfrgell, Canolfan Gymraeg Caerdydd, i gynyddu gweithgareddau sy'n estyn allan a datblygu cyfleoedd i arddangos hanes a threftadaeth Gymraeg helaeth Caerdydd. | Yr Hen Lyfrgell i gynllunio, cydlynu a hysbysebu calendr o weithgareddau allgymorth i gyflwyno'r iaith Gymraeg a'i hanes a threftadaeth helaeth i gynulleidfaoedd newydd. | O fis Medi 2019 | Yr Hen Lyfrgell, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, Menter Caerdydd, Cyngor Dinas Caerdydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru. |
| | Datblygu cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg mewn dulliau arloesol, ar sail llwyddiannau diweddar Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn y maes hwn, a'u cyflwyno i holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog i sicrhau mwy o gefnogaeth a pherchnogaeth o'r Gymraeg. | Paratoi cynllun gweithredu erbyn Medi 2018.<br><br>Gweithredu'r cynllun o fis Medi 2019. | Cyngor Dinas Caerdydd - Caerdydd Ddwyieithog, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog. |
| | Cynnig cyrsiau blasu Cymraeg byr i holl ymwelwyr YHL yn ystod Ffeinal Cynghrair y Pencampwyr UEFA 2017 i hyrwyddo'r iaith mewn goleuni cadarnhaol a chodi ymwybyddiaeth | Mehefin 2017 | Ysgol y Gymraeg (Cymraeg i Oedolion), Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru |

## Gwasanaethau Cymraeg a'r Gweithle

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynyddu nifer/canran y siaradwyr Cymraeg o fewn Cyngor Dinas Caerdydd a galluogi a chefnogi staff rhugl, yn ogystal â staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac annog sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i ddefnyddio'r un dull. | Cynyddu nifer y staff dwyieithog yng Nghyngor Dinas Caerdydd i adlewyrchu'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwyieithog i fabwysiadu'r un dull. | Erbyn 2022, cynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg yng ngweithlu'r Cyngor gan 50 % .<br><br>Rhannu arfer da gyda sefydliadau cyhoeddus eraill erbyn Ebrill 2022. | Cyngor Dinas Caerdydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgol De Cymru, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Colegau Cymru, Asiantaethau Recriwtio |






| | | | |
|---|---|---|---|
| | Creu swydd tiwtor Cymraeg yng Nghyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i staff. | Creu'r swydd erbyn Ebrill 2018. | Cyngor Dinas Caerdydd |
| | Drwy'r fforwm Caerdydd Ddwyieithog, gweithio gyda sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. | O Ionawr 2018 | Cyngor Dinas Caerdydd, holl sefydliadau Caerdydd Ddwyieithog |
| Annog sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i ddarparu hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl Uwch Reolwyr a staff. | Sicrhau bod staff Cyngor Caerdydd a rheolwyr yn mynychu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwyieithog i fabwysiadu'r un dull | Adrodd yn flynyddol ar nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant. | Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd |
| | Cyngor Dinas Caerdydd i ddarparu cyrsiau dysgu a gwella'r Gymraeg i'r holl staff sy'n delio â'r cyhoedd ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwyieithog i fabwysiadu'r un dull. | Adrodd yn flynyddol ar nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant. | Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd |
| Gweithrediad y safonau iaith gan sefydliadau Caerdydd Ddwyieithog perthnasol yn arwain at gynyddu argaeledd a'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg | Gweithredu'r safonau iaith a chynorthwyo sefydliadau Caerdydd Ddwyieithog eraill i gyflawni'r un peth. | O'r dyddiadau cydymffurfiaeth statudol perthnasol. | Holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog. |
| | Paratoi Cyfeirlyfr Caerdydd Ddwyieithog yn amlinellu'r holl wasanaethau cyhoeddus Cymraeg sydd ar gael yng Nghaerdydd a hyrwyddo i gynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. | Paratoi cyfeirlyfr erbyn Mawrth 2018 | Menter Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dangos ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg mewn trefniadau cydweithredu a dogfennau comisiynu a chontractau 3ydd parti a sicrhau bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn cael eu cynnwys o'r cychwyn. | Annog holl bartneriaid cyhoeddus Caerdydd Ddwyieithog i sicrhau bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn rhan allweddol o ddatblygu polisïau ac o fewn asesiadau effaith. | O'r dyddiadau cydymffurfiaeth statudol perthnasol. | Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog. |
| | Paratoi canllawiau ar ofynion yr iaith Gymraeg i'r holl gontractwyr 3ydd parti sy'n gweithio o fewn y sector cyhoeddus. | Medi 2017 | Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog. |
| | Cynnwys capasiti dwyieithog mewn datrysiadau TG newydd sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys rhyngwynebau sy'n cynnig dewis iaith. | O'r dyddiadau cydymffurfiaeth statudol perthnasol. | Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog. |
| Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Gymraeg. | Sicrhau bod Cynnig Actif o wasanaethau Cymraeg yn cael ei rannu â holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ac o fewn gwasanaethau a gomisiynir. | Mawrth 2018 | Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro |
| | Cynnwys gwasanaeth Cymraeg o fewn manylion contract, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesau cyllid grant trydydd sector ac annibynnol lle bo angen. | Mawrth 2018 | Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro |
| | Sicrhau ein bod yn gallu darparu cymaint o wasanaethau â phosibl yn Gymraeg. Lle nodir bylchau o ran capasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg dylai'r rhain gael eu hadlewyrchu yn Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y sefydliad. | Mawrth 2018 | Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro |




| | | | |
|---|---|---|---|
| Archwilio'r ffordd y mae ein gwasanaethau'n cael eu cynnig i'r cyhoedd a gweithio gydag arbenigwyr mewn pensaernïaeth dewis iaith i sicrhau dewis iaith teg. | Cynnal arbrofion drwy gynnig gwasanaethau ar-lein neu gyfrifiadurol y Cyngor drwy ddulliau pensaernïaeth dewis iaith gwahanol er mwyn pennu'r dull mwyaf tebygol o sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'r Gymraeg. | Ionawr 2018 | Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd |
| | Cynnal ymchwil gyda rhieni plant cyn ysgol i bennu'r dulliau pensaernïaeth dewis iaith a/neu yr ystyriaethau y gallai fod angen i'r Cyngor eu gweithredu i gynyddu nifer y plant mewn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. | Ionawr 2018 | Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Dinas Caerdydd |

# Atodiad II : Partneriaid arweiniol

Fel strategaeth ar gyfer y Ddinas gyfan, mae llwyddiant gweledigaeth Caerdydd Ddwyieithog fel yr amlinellir yn y strategaeth hon yn dibynnu ar gydweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Mae'r holl bartneriaid canlynol wedi cytuno i roi'r cynllun ar waith a monitro cynnydd yn erbyn adrannau perthnasol y cynllun gweithredu.

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd

Fel rhan o weithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Mae BGCau yn dod â chyrff cyhoeddus a thrydydd sector ynghyd i weithio mewn partneriaeth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae aelodau statudol BGC fel a ganlyn:

- Cyngor Dinas Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhaid i aelodau'r Bwrdd hefyd gynnwys nifer o bartneriaid eraill sy'n cyfrannu at ei weithgareddau fel 'cyfranogwyr a wahoddir'. Mae cynrychiolwyr o'r canlynol yn BGC Caerdydd:

- Gweinidogion Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Gall partneriaid eraill sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus hefyd fod yn rhan o'r gwaith.

Mae dyletswydd ar BGCau dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i asesu lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal leol a llunio cynllun lles lleol yn nodi amcanion lles a fydd yn cyfrannu at gyflawni 7 nod llesiant Llywodraeth Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y nodau hyn yma.

Nodyn: Gwnaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mai 2016, ddisodli Bwrdd Partneriaeth Caerdydd a Chyd-fwrdd Gwasanaethau Lleol Caerdydd a'r Fro.

## Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio drwy ganghennau sydd wedi'u lleoli mewn saith prifysgol yng Nghymru. Nod y canghennau yw cefnogi gwaith y Coleg a gweithredu fel pwynt cyswllt lleol i fyfyrwyr.

Mae'r dewis o gyrsiau Cymraeg wedi ehangu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae dros 1,000 o gyrsiau i fyfyrwyr Cymraeg, ynghyd â dros 150 o ysgoloriaethau israddedig sy'n cael eu rhoi i fyfyrwyr bob blwyddyn.

Mae gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnwys:

- Sicrhau mwy o gyfleoedd astudio i fyfyrwyr Cymraeg - mewn partneriaeth â'r prifysgolion
- Hyfforddi, datblygu ac ariannu darlithwyr Cymraeg ar gyfer y dyfodol
- Ariannu ysgoloriaethau israddedig ac ôl-raddedig






- Cefnogi myfyrwyr sy’n astudio cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynyddu nifer y myfyrwyr sy’n dewis astudio eu cwrs cyfan neu ran o’u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg
- Datblygu modiwlau, cyrsiau ac adnoddau o ansawdd ar gyfer myfyrwyr Cymraeg.

## ColegauCymru

ColegauCymru yw’r elusen addysgol genedlaethol sy'n cynrychioli 14 o golegau addysg bellach (AB) a sefydliadau AB dynodedig Cymru. Mae’r Bwrdd yn cynnwys penaethiaid colegau a chadeiryddion corfforaethau, a benodir gan golegau sy’n aelodau. Mae hefyd yn gweithio’n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid yn y maes addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16.

Drwy ColegauCymru, mae colegau’n cael eu cynrychioli ar amrywiaeth o bwyllgorau a grwpiau sy’n dylanwadu ar bolisi addysgu ôl-16 a dysgu gydol oes. Yn ardal Caerdydd rydyn ni'n gweld twf yn y galw am gyfleoedd academaidd, galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith ôl-16 Cymraeg/dwyieithog, ac mae cynnwys colegau'n allweddol i ddatblygu cynlluniau WESP cymunedol llwyddiannus. Mae Coleg Caerdydd a’r Fro, Coleg Catholig Dewi Sant a Choleg Cymunedol WEA YMCA yn ymateb i’r cynnydd hwn yn y galw am addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16 Cymraeg. Gallant oll gynnig gwasanaeth dwyieithog, ac maent yn awyddus i ehangu'r ddarpariaeth hon drwy bartneriaeth.

Mae prif-ffrydio’r Gymraeg mewn colegau addysg bellach yn un o nodau strategol ColegauCymru. Mae’r colegau wedi cynyddu eu canran o ddarpariaeth ddwyieithog yn sylweddol yn ddiweddar, gan ragori ar dargedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Addysg Gymraeg (2010). Yn 2010/11, roedd 5.7 % o weithgareddau dysgu mewn colegau addysg bellach yn cael eu darparu’n ddwyieithog neu'n Gymraeg. Y targed oedd 7 % erbyn 2015 a 10 % erbyn 2020. Mae adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth (Gorffennaf 2015) yn dangos bod colegau wedi cyrraedd 8.5 % erbyn 2013/14 – sy’n uwch na tharged 2015 ac ar y trywydd cywir i fwrw targed 2020.

Mae ColegauCymru yn gweithio’n agos gyda Sgiliaith, canolfan ddatblygol ac arloesol o fewn Grŵp Llandrillo Menai a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae’n cynnig hyfforddiant a chymorth i golegau addysg bellach a darparwyr eraill er mwyn cynyddu sgiliau addysgu dwyieithog a Chymraeg.

## Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru’n un o wyliau diwylliannol mwyaf y byd ac fe’i cynhelir bob blwyddyn yn wythnos gyntaf mis Awst. Mae’n cael ei chynnal yng ngogledd a de Cymru bob yn ail. Cynhelir gŵyl 2018 yng Nghaerdydd am y tro cyntaf ers 2008. Mae’r ŵyl, sy’n denu 150,000 o ymwelwyr, yn dathlu’r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn ffordd gynhwysol ac eclectig. Gwnaed llawer o waith dros y degawd diwethaf i ddatblygu’r ŵyl fel digwyddiad hygyrch i’r teulu cyfan, sy'n datblygu ac yn newid o flwyddyn i flwyddyn wrth ymweld â rhannau gwahanol o Gymru.

Fe’i disgrifir fel project adfywio symudol mwyaf Cymru. Mae hi’n benllanw ar broject cymunedol dwy flynedd, sy’n gweld pobl leol yn dod ynghyd i godi ymwybyddiaeth ac arian i’r digwyddiad. Mae’r gwaith hwn wedi dechrau yng Nghaerdydd, ac mae digwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu trefnu ar draws y ddinas. Mae'r digwyddiadau yn dod â phobl o bob oedran a chefndir ynghyd. Er y caiff ei threfnu i hyrwyddo’r Eisteddfod, yr iaith a diwylliant Cymru, mae’r digwyddiadau’n amrywiol, sy’n dod â phobl ynghyd i ddathlu a pharatoi at ymweliad yr ŵyl.

Gan weithio gydag ystod  eang o sefydliadau, mae'r Eisteddfod yn gatalydd ar gyfer datblygiadau, gyda gwaddol y project a'r ŵyl yn cael ei gydnabod yn y meysydd canlynol:

- Cymunedol: cynnydd yn nifer y gweithgareddau cymunedol a gynhelir ar draws y rhanbarth yn ystod y ddwy flynedd yn arwain at yr ŵyl ei hun;
- Iaith: cynnydd yn y diddordeb yn yr iaith ac yn nifer yr oedolion sy'n dechrau gwersi Cymraeg;
- Diwylliant: cynnydd yn nifer y grwpiau a sefydlwyd i gystadlu, yn nifer yr artistiaid yn creu gwaith a llyfrau a cherddoriaeth a gyhoeddir yn Gymraeg i'r Eisteddfod;
- Economi: cadarnhawyd yn annibynnol bod gwerth economaidd wythnos yr Eisteddfod rhwng £6m ac £8m yn lleol (ffigurau: Cyngor Sir Caerdydd 2008);
- Gwirfoddoli: cynnydd yn nifer y bobl sy'n gwirfoddoli'n Gymraeg ac yn fodlon gweithio gyda'r sefydliadau eraill ar ôl ymweliad yr Eisteddfod.

Cynhelir Eisteddfod 2018 ym Mae Caerdydd, a bydd yn ŵyl heb ffens amdani.  Mae hon yn ffordd gwbl newydd o gynnal Eisteddfod, gan gyfuno'r defnydd o adeileddau dros dro ac adeiladau'r ardal, gan ddwyn ynghyd holl elfennau'r Eisteddfod draddodiadol mewn dull gwahanol.

## Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Mae'n credu bod llenyddiaeth ar gyfer pawb ac y gellir dod o hyd iddi yn unrhyw le. Mae projectau a gweithgareddau amrywiol y sefydliad yn cynnwys Llyfr y Flwyddyn Cymru, Bardd Cenedlaethol Cymru, Bardd Plant Cymru a Bardd Llawryfog y Bobl Ifanc, mentrau Twristiaeth Lenyddol, y cynllun ariannu Ysgrifenwyr ar Daith, cyrsiau ysgrifennu creadigol yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Gwasanaethau i Ysgrifenwyr (gan gynnwys Bwrsariaethau a Mentora) a Charfannau Ysgrifennu Pobl Ifanc. Y Prif Weithredwr yw Lleucu Siencyn.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig (rhif 1146560) ac yn gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae'n gweithio i wella bywydau pobl Cymru a gwneud ein cenedl yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo. Mae'r Llywodraeth yn gyfrifol am feysydd datganoledig megis iechyd, addysg a'r amgylchedd.

Mae'r Gymraeg yn un o feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru – mae Adran 61(k) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (GOWA 2006) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw beth y maen nhw'n ei ystyried yn briodol i gefnogi'r Gymraeg.

Nod Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu, ac mae wedi amlinellu ei weledigaeth i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg gyfredol: Iaith fyw, iaith byw 2012-2017 yn amlinellu 6 maes strategol i ganolbwyntio arnynt:

- Y teulu
- Plant a Phobl Ifanc
- Y gymuned
- Y gweithle
- Gwasanaethau
- Technoleg a seilwaith.






## Menter Caerdydd

Sefydlwyd Menter Caerdydd ym mis Mehefin 1998 gyda'r nod o hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd drwy greu cyfleoedd i drigolion y ddinas ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r gwaith a'r ysgol. Heddiw, Menter Caerdydd yw un o Fentrau Iaith mwyaf llwyddiannus Cymru, gyda mwy na 40,000 o ddefnyddwyr.

Mae Menter Caerdydd yn cynnig gwasanaethau drwy weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau Cymraeg yng Nghaerdydd, yn ogystal â sefydliadau eraill y mae eu ffocws y tu hwnt i gynnig gweithgareddau Cymraeg. Prif bartneriaid Menter Caerdydd yw Llywodraeth Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd, sy'n gyfrifol am ariannu nifer o wasanaethau sy'n cael eu cynnig yn Gymraeg yn y Ddinas. Mae'n elusen gofrestredig ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant.

Mae gwaith craidd Menter Caerdydd yn cynnwys chwe blaenoriaeth, sef:

- Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Magu hyder a newid agwedd pobl tuag at y Gymraeg.
- Atgyfnerthu'r Gymraeg a'r defnydd ohoni o fewn teuluoedd.
- Datblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion.
- Datblygu Gwyliau Cymraeg i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Sicrhau bod gan y Gymraeg blatfform amlwg ar lefel ddigidol.

Mae gwasanaethau a gweithgareddau Menter Caerdydd yn cynnwys arwain prosiect Yr Hen Lyfrgell – Canolfan Gymraeg Caerdydd, cydlynu cyfleoedd hyfforddiant a gwirfoddoli i fyfyrwyr 16+ yn Gymraeg, cydlynu Tafwyl - gŵyl Gymraeg Caerdydd, trefnu clybiau wythnosol i blant, cyfleoedd chwarae a gweithdai am ddim a Chynlluniau Gofal yn ystod y gwyliau, trefnu cyfleoedd cymdeithasol a gweithgareddau i ddysgwyr a theuluoedd, ac arwain Fforwm Iaith Gymraeg y Ddinas.

Drwy ganolbwyntio ar y prif flaenoriaethau hyn, mae Menter Caerdydd yn mynd i'r afael â phrif flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd o ran iaith, teuluoedd, plant a phobl ifanc, y gymuned a'r gweithle.



## Mudiad Meithrin

Mudiad Meithrin: sefydliad gwirfoddol cenedlaethol o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol, sesiynau meithrin a meithrinfeydd Cymraeg sy'n cynnig profiadau yn y blynyddoedd cynnar, gofal plant ac addysg o ansawdd i tua 22,000 o blant bob wythnos.

Mae Cylchoedd Meithrin, meithrinfeydd dydd, Cylchoedd Ti a Fi a chlybiau ar ôl ysgol yn rhai enghreifftiau o'r math o leoliadau sy'n aelodau o Mudiad Meithrin. Maent ym mhob rhan o'r wlad, gyda 288 yn y gogledd-orllewin, 186 yn y gogledd-ddwyrain, 260 yng nghanolbarth Cymru, 186 yn y de-orllewin a 249 yn y de-ddwyrain.

## Prifysgol Caerdydd (Ysgol y Gymraeg)

Mae Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn uned academaidd o'r radd flaenaf sydd ag enw da yn fyd-eang. Mae'n arbenigo mewn amrywiaeth o feysydd sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys llenyddiaeth, ieithyddiaeth, cymdeithaseg iaith, cyfieithu, addysg, cynllunio a pholisi. Mae ganddi gysylltiadau rhyngwladol cryf, yn arbennig gyda gwledydd sy'n gartref i ieithoedd lleiafrifol, fel Canada, Catalonia, Gwlad y Basg ac Iwerddon. Mae staff yr ysgol hefyd yn arbenigo mewn agweddau amrywiol ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Mae arolygon cenedlaethol yn dangos bod yr Ysgol yn rhagori mewn addysgu, ymchwil ac effaith ei hymchwil y tu allan i'r maes academaidd. Mae'n cynnig addysg o'r radd flaenaf o lefel israddedig i lefel PhD. Mae Cymraeg i Oedolion Caerdydd yn rhan o'r Ysgol, ac mae'n darparu cyrsiau i fwy na 2,000 o fyfyrwyr yn y brifddinas. Mae'r Ysgol hefyd yn gyfrifol am y cynllun Cymraeg i Bawb (sy'n rhoi'r cyfle i gannoedd o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd ddysgu Cymraeg am ddim) ac mae'n un o ganolfannau'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol (sy'n datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr addysg).



Mae Ysgol y Gymraeg yn rhan o Brifysgol Caerdydd, sy'n brifysgol uchelgeisiol ac arloesol â gweledigaeth feiddgar a strategol. Cafodd ei henwi yn y 5ed safle am ymchwil ac yn yr 2il safle am effaith o blith holl brifysgolion y DU yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Mae'r brifysgol yn cynnig profiad addysgol rhagorol i'w myfyrwyr. Mae Prifysgol Caerdydd, wedi'i llywio gan greadigrwydd a chwilfrydedd, yn gwneud popeth yn ei gallu i gyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru a'r byd.

## Urdd Gobaith Cymru

Yr Urdd yw sefydliad ieuenctid mwyaf Cymru i blant a phobl ifanc, gyda mwy na 50,000 o aelodau. Mae 30 % o holl siaradwyr Cymraeg Cymru rhwng 8 a 25 oed yn aelodau. Mae gan yr Urdd 260 o staff, 100 o wirfoddolwyr a 900 o ganghennau, gyda 200 o ganghennau yn y gymuned. At hynny, mae 150 o glybiau chwaraeon sy'n cwrdd yn wythnosol.




Nod Urdd Gobaith Cymru yw rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc yng Nghymru, drwy gyfrwng y Gymraeg, dyfu'n unigolion cyflawn, gan ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at y gymuned.

## Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Ganolfan yn gorff cenedlaethol sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen addysg Cymraeg i Oedolion. Mae'n gweithredu fel cwmni hyd braich i'r Llywodraeth, ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol.

Bydd y Ganolfan yn:

- sefydliad amlwg yn gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion.
- rhoi arweiniad i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion.
- codi safonau mewn addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion.
- datblygu cwricwlwm cenedlaethol diddorol, priodol ac o ansawdd ac yn cynhyrchu adnoddau addas ar gyfer pob math o ddysgwyr.

Prifysgol Caerdydd yw darparwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yng Nghaerdydd.

## Yr Hen Lyfrgell

Agorodd Canolfan Gymraeg Caerdydd ('Yr Hen Lyfrgell') yn adeilad yr Hen Lyfrgell ym mis Chwefror 2016. Nod y ganolfan yw hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg fel iaith fyw yn y brifddinas mewn canolfan gyfeillgar a chroesawgar sydd ar agor i holl ddinasyddion Caerdydd ac ymwelwyr. Mae'r Hen Lyfrgell yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau mewn awyrgylch cymdeithasol a chynhwysol lle mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig wrth wraidd popeth.

Mae yna gaffi, bar a bwyty sy'n gweini bwyd a diod o Gymru, siop yn gwerthu nwyddau Cymreig o ansawdd, siop lyfrau, crèche i blant, ystafelloedd addysgu yn cynnig cyrsiau i ddysgwyr Cymraeg, ardal berfformio ac arddangos hyblyg, ac Amgueddfa Stori Caerdydd.
Yn arddangos 'y gorau o Gaerdydd a Chymru', mae'r Hen Lyfrgell yn ganolfan egnïol ac arloesol sydd â'r nod o ddenu siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd, o Gaerdydd a thu hwnt. Mae'n atyniad unigryw i ymwelwyr lle defnyddir y Gymraeg i ddathlu popeth sy'n wych am Gymru a'i phrifddinas – eu diwylliant, eu treftadaeth a'u pobl. Mae'r Hen Lyfrgell yn bosibl drwy bartneriaeth effeithiol gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd a sefydliadau yng Nghaerdydd – Menter Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Amgueddfa Stori Caerdydd, Mudiad Meithrin, Mela a Bodlon.




Caerdydd
Ddwyieithog
Bilingual
Cardiff
CARDIFF
CAERDYDD